WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2009

Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Baragraff 12 o Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

**Hydref 2007**

## Crynodeb

1. O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) mae'n ofynnol i Weinidogion gyflwyno Cynnig Cyllidebol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) er mwyn awdurdodi'r defnydd o adnoddau, cadw incwm a thyniadau arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol). Penderfynir ar gyllideb yr Archwilydd Cyffredinol sydd i'w chynnwys yn y Cynnig Cyllidebol hwnnw, yn unol ag Adran 12 yn Atodlen 8 o Ddeddf 2006, drwy'r gofyniad bod y Pwyllgor Archwilio'n archwilio ei amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau ac yna yn ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Felly gwahoddir Pwyllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol i gymeradwyo'r amcangyfrif hwn o incwm a threuliau'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2009.
3. Mae'r amcangyfrif a gynigir yn cydbwyso pwysau cost hysbys gydag effeithiolrwydd cynyddol sydd o leiaf yn gyfartal â'r gwelliant o un y cant sy'n ddisgwyliedig o gyrff cyhoeddus o dan Creu'r Cysylltiadau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn chwilio am gynnydd cyffredinol o £600,000 yr amcangyfrif 2008/2009 hwn, sef o £4.2 miliwn i £4.9 miliwn. Mae'r ffigur hwn yn cymryd i ystyriaeth y pwysau cost y disgwylir y byddant yn codi o ganlyniad i gwblhau'r gwaith archwilio ychwanegol yn 2008/2009, gan gynnwys:
   - a gwaith yn deillio o rôl gynyddol ar gyfer craffu'r Weithrediaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan y Pwyllgor Archwilio a'r pwyllgorau craffu newydd fel ei gilydd;
   - b galw cynyddol ar gyfer adroddiadau a gwaith arall o natur drawsbynciol, neu wasanaeth cyfan y mae natur ei gyllid yn gymhleth ar hyn o bryd neu'n amhriodol drwy godi ffioedd ar gyrff unigol;
   - c datblygiad pellach o ddysgu Arfer Da a rennir ar draws gwasanaethau cyhoeddus;
   - d cynyddu'r gallu parhaus i ymateb yn brydlon i ofynion prosiectau mawrion ar fyr-rybudd (er enghraifft yr adolygiad o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru); a
   - e galwadau cynyddol ar gyfer gwaith i gryfhau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys datblygu gwell trefniadau gwrth-wyngalchu arian.

4. Yn 2006/2007, bu i'r Archwilydd Cyffredinol amsugno rhyw £2.5 miliwn o gostau nas rhagwelwyd yn codi o drosglwyddiad statudol cyn staff y Comisiwn Archwilio i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (y PCSPS) (rhoddir rhagor o fanylion ym Mharagraff 33). Roedd yn llwyddiant sylweddol i allu amsugno cost mor uchel, a oedd yn annisgwyl ac yn hollol y tu allan i reolaeth yr Archwilydd Cyffredinol. I'w wneud, cyflawnwyd effeithiolrwyddau costau yn y flwyddyn yn ogystal â chanolbwyntio ymdrech ar waith a enillai ffioedd. Yn ogystal â hyn, cafodd yr arian wrth gefn a ddygwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddihysbyddu'n llawn.

5. Mae Deddf 2006 wedi newid yn sylweddol y ffordd y caiff gwariant cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys gwariant yr Archwilydd Cyffredinol, ei awdurdodi. Hyd yma, cafwyd y brif reolaeth dros arian parod ond mae adnoddau yn ogystal ag arian parod yn cael eu rheoli'n fwy tyn. O ran gwasanaethau a dibenion yr Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2009, bydd y Cynnig Cyllidebol felly yn awdurdodi:

   a faint o adnoddau a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol;

   b faint o adnoddau a ddaw i ran yr Archwilydd Cyffredinol y gall eu cadw (yn hytrach na'u talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru);

   c faint y gellir ei dalu i'r Archwilydd Cyffredinol o Gronfa Gyfunol Cymru.

6. Crynhoir y gofynion hyn yn y tabl isod.

**Tabl 1: Crynodeb o ofynion cyllideb 2008/2009**

| | £miliwn |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau sy'n cronni at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru a chyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol [1]. | 4.9 |
| Adnoddau sy'n cronni o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (ac eithrio incwm o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004); adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol ac ati; adennill costau staff a secondiwyd; ad-daliadau o fenthyciadau staff; adennill taliadau prydlesu ceir; a llog a dderbynnir ar ffioedd balansau gweithredol at ddefnydd yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru [2].<br>(Gweler Nodyn (xii) Tabl 3) | 9.3 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net fydd yn daladwy yn ystod y flwyddyn gan yr Archwilydd Cyffredinol [3]. | 4.9 |

[1] Sef y gwariant refeniw a chyfalaf net o ran adnoddau y gofynnir i'r Cynulliad Cendlaethol eu hawdurdodi drwy Gynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(a) o Ddeddf 2006.

[2] Sef yr incwm sy'n dod i ran yr Archwilydd Cyffredinol (ac eithrio incwm sy'n deillio o weithgareddau llywodraeth leol) y gofynnir i'r Cynulliad ei awdurdodi drwy Gynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) i'w ddefnyddio ar wasanaethau cysylltiedig yn hytrach na'i dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

[3] Sef yr arian parod sydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu taliadau net amcangyfrifedig yr Archwilydd Cyffredinol (taliadau llai derbyniadau) sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn i'w hawdurdodi gan y Cynulliad Cendlaethol drwy Gynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(c) o Ddeddf 2006.

7. Yn ogystal â'r symiau a ddangosir yn Nhabl 1, daw adnoddau i ran yr Archwilydd Cyffredinol o weithgareddau llywodraeth leol o dan Ran 1 ac Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y caniateir iddo eu cadw at ddefnydd mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y darpariaethau statudol hynny. Yn ystod 2008/2009 mae'r amcangyfrifon hyn yn dod i £11.4 miliwn. O dan Baragraff 9(3) o Atodlen 8 i Ddeddf 2006, awdurdodir yr Archwilydd Cyffredinol i gadw incwm o'r fath yn hytrach na'i dalu i Gronfa Gyfunol Cymru. Felly ni fydd yn rhan o'r swm sydd i'w awdurdodi gan y Cynnig Cyllidebol o dan Adran 125(1)(b) o Ddeddf 2006 ac mae wedi'i gynnwys er gwybodaeth.

# Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru

8. Mae gweddill y ddogfen hon yn ymdrin â manylion yr amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2008/2009. Mae rhai materion y nodwyd y llynedd bod ansicrwydd yn eu cylch wedi'u datrys ond erys eraill.

9. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio:

- a rôl yr Archwilydd Cyffredinol;
- b sut yr ariennir Swyddfa Archwilio Cymru;
- c gwaith archwilio ychwanegol sy'n codi yn 2008/2009;
- d cynnydd o ran y materion ariannol a nodwyd yn yr amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio y llynedd;
- e dadansoddi'r amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2008/2009.

## Rôl yr Archwilydd Cyffredinol

10. Gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol:

- a Yn archwilio cyfrifon y Cynulliad, Cronfa Gyfunol Cymru, Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad)), cyrff cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad, a phob corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol (gan gynnwys awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r heddlu, gwasanaethau prawf ac awdurdodau parc cenedlaethol).
- b Mae ganddo'r pŵer i archwilio darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- c Mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gweithgareddau arolygu ar ran awdurdodau gwerth gorau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella.
- d Ymgymryd ag adolygiadau ymatebol mawr megis Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac adolygiadau eraill nad ydynt yn ennill arian.

11. Wrth benderfynu ar sut i arfer ei swyddogaethau o dan Baragraff 10(b), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried barn y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r archwiliadau y dylai eu cynnal.

12. Cyflwynodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 newidiadau mawr i'r gyfundrefn archwilio ac arolygu ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Trosglwyddodd y swyddogaethau a arferid o’r blaen gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru mewn perthynas ag iechyd a llywodraeth leol i’r Archwilydd Cyffredinol. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru, fel yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff, drwy drosglwyddo staff y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol.
Mae'r Ddeddf hefyd wedi gwella'r gyfundrefn archwilio ac arolygu yng Nghymru drwy ymhlith pethau eraill:

   a. wella hawl archwilwyr i weld gwybodaeth er mwyn olrhain arian cyhoeddus at y rhai sy'n ei dderbyn yn y pen draw;

   b. rhoi dyletswyddau amrywiol i gydweithio a rhannu gwybodaeth gydag archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr eraill.

13. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i olrhain arian cyhoeddus yn fertigol drwy'r gadwyn ariannu er mwyn sicrhau y caiff ei wario'n briodol ac yn ddoeth, yn ogystal â chynnal astudiaethau o natur drawsbynciol a chyflwyno adroddiadau cyfannol ar y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu.

14. Mae Deddf 2006 yn pennu rôl a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ar sail ychydig yn wahanol a ddaeth i rym ym mis Mai 2007. Mae'n cyflwyno swyddogaethau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cymeradwyo ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Sut y caiff gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ei ariannu

15. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o waith archwilio ac arolygu ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nodir y prif elfennau, ynghyd â’r ffynonellau o arian, yn Nhabl 2.

**Tabl 2: Prif weithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a ffynonellau o arian**

| Gweithgaredd | Gradd | Sut y caiff ei ariannu |
|---|---|---|
| Gwaith gwerth am arian/archwilio perfformiad ar Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad, GIG Cymru, y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch.<br>Cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.<br>Gohebiaeth gan aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a chan aelodau o'r cyhoedd. | Cyfanswm gwariant sy'n agored i werth am arian/archwilio perfformiad dros £14 biliwn.<br>Briffio'r Pwyllgor Archwilio cyn ei 9-10 o gyfarfodydd y flwyddyn; darparu adroddiadau drafft; a rhoi cyngor ar ymatebion Llywodraeth y Cynulliad. | O Gronfa Gyfunol Cymru. |
| Archwiliad o gyfrifon a baratowyd gan Gomisiwn y Cynulliad, Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) ac ymddiriedolaethau GIG. | Naw cyfrif a baratoir gan Lywodraeth y Cynulliad.<br>Dros 60 o gyfrifon, gan gynnwys 22 o FILlau a 15 o ymddiriedolaethau'r GIG. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir. |
| Gwaith ariannol, gwerth am arian/archwilio perfformiad ac arolygu (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella) ar gyrff llywodraeth leol. | Dau ar hugain o awdurdodau unedol; pedwar awdurdod heddlu; tri awdurdod tân ac achub; pedwar bwrdd prawf; tri awdurdod parc cenedlaethol; a 750 o gynghorau cymuned. | Ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac a arolygir. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhannol-ariannu gwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. |
| Gwaith ardystio grantiau a gwaith arall a wneir drwy gytundeb. | Gwaith a wnaed yn y 22 o awdurdodau unedol, Llywodraeth y Cynulliad a sawl corff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad. | Ffioedd a ariennir yn llawn. |

Noder

Gallai gwaith o natur drawsbynciol, megis astudiaeth yn cwmpasu Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol, ddod o dan fwy nag un o'r gweithgareddau uchod ac felly gael ei ariannu gan grant gan y Cynulliad Cenedlaethol a ffioedd.

16. Ariennir y rhan fwyaf o'r gwaith a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru neu gan gwmnïau a benodir neu a gontractir drwy ffioedd a godir ar gyrff a archwilir ac a arolygir. Pennir y ffioedd hyn fel y gellir adennill cost lawn y gwaith dan sylw.

## Gwaith archwilio ychwanegol sy'n codi yn 2008/2009

### Trefniadau cyfansoddiadol newydd

17. Mae Deddf 2006, yn dilyn etholiadau mis Mai 2007, wedi creu llywodraeth weithredol i Gymru sy'n atebol i'r Cynulliad ond sydd ar wahân iddo yn gyfreithiol. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y gangen Weithredol a'r gangen ddeddfwriaethol/craffu eisoes wedi arwain at alw i'r Archwilydd Cyffredinol gymryd adroddiadau a darparu tystiolaeth arall i'r pwyllgorau craffu amrywiol. Gellir disgwyl y bydd galw o'r fath yn parhau.

18. Sefydlwyd corff newydd, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i ddarparu cefnogaeth a gwasanaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y corff hwn yn destun i'r un lefel o graff â chrff cyhoeddus eraill.

### Prosiectau trawsbynciol a gwasanaeth cyfan

19. Y rhesymed dros greu Swyddfa Archwilio Cymru fel un corff archwilio yng Nghymru oedd hwyluso archwilio a chraffu ar draws sectorau ac ar draws Gymru gyfan. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys ein gwaith ar Greu'r Cysylltiadau ac oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae prosiectau o'r fath yn canolbwyntio ar themâu neu wasanaethau cyfan – nid ar sefydliadau. Fodd bynnag, mae ariannu gwaith o'r fath yn gymhleth oherwydd bod rhaid negodi ffi, neu ran o ffi, gyda llu o gyrff cyhoeddus, y maent i gyd yn chwarae rhan wrth gyflawni'r thema neu wasanaeth cyfan a adolygir. Mae'r broses ariannu feichus hon yn lleihau gallu'r Archwilydd Cyffredinol i ymgymryd â phrosiectau mor hanfodol.

### Rhannu dysgu o Arferion Da

20. Cydnabyddir pwysigrwydd rhannu dysgu o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n amlwg yn Strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwaith cychwynnol yn y maes hwn wedi creu llawer o ddiddordeb gan y cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n dilyn lansio ein Cyfnewidfa Arferion Da yn gynharach eleni. Mae'r cysyniad yn syml ond gall yr effaith fod yn enfawr - mae ein hymagwedd yn cynnwys nodi arfer da, gwerthuso i ba raddau y gellir ei drosglwyddo a hyrwyddo gweithrediad er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw'r gwaith hwn yn gyfyngedig i un sector penodol, yn wir roedd yn prif thema gyntaf yn ymwneud ag Absenoldeb oherwydd Salwch sy'n bwnc o ddiddordeb ar draws y sector cyhoeddus ac sydd felly, yn gallu elwa ar ystod eang o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

### Ymateb i geisiadau byr-rybudd

21. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu ymateb yn brydlon ar fyr-rybudd i gais y Cynulliad Cenedlaethol i ymgymryd ag adolygiad o weithrediadau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Gwnaeth hynny heb ofyn am ragor o arian ond bu'n rhaid gohirio gwaith pwysig arall. Mae'r gallu i barhau i ymateb yn brydlon i geisiadau byr-rybudd tebyg yn rhywbeth rydym yn ystyried ei fod yn ddymunol iawn ac mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu'r dymuniad hwnnw.

### Llywodraethu corfforaethol cryfach

22. O ganlyniad i nifer o sgandalau ariannol a chorfforaethol proffil uchel iawn cyflwynwyd ystod eang o safonau cyfrifyddu ac archwilio rhyngwladol newydd. Mae'r rhain yn berthnasol i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn anorfod yn arwain at waith archwilio ychwanegol.

23. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi gwneud trefniadau iddo gwrdd â gofynion deddfwriaeth wrth-wyngalchu arian a Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 fydd yn dod i rym yn fuan, sy'n rhoi'r Trydydd Gyfarwyddyd Gwyngalchu Arian ar waith. Mae'r rheoliadau newydd, sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd, yn rhoi dyletswydd benodol ar yr Archwilydd Cyffredinol i adrodd amheuon a gwybodaeth am drafodion yn enillion troseddau i'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol. Mae cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn cael hyfforddiant ar adnabod, ac ymateb i, ddigwyddiadau o amheuon neu wybodaeth o drafodion gydag enillion troseddau a gweithrediad y systemau adrodd.

## Cynnydd o ran y materion ariannol a nodwyd yn yr amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio y llynedd

24. Yn yr amcangyfrif y llynedd nodwyd y materion hollbwysig a oedd yn effeithio ar y costau y disgwylid i'r sefydliad newydd fynd iddynt. Mae'r adran hon yn rhoi darlun wedi'i ddiweddaru o'r sefyllfa o ran y pwysau costau hyn ac yn amlygu meysydd newydd neu barhaus lle y ceir ansicrwydd.

### Gwerthusiad o swyddi

25. Fel y cam olaf o amsugno staff y cyrff rhagflaenol , y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a'r Swyddfa Archwilio Cenedlaethol Cymru, yn un fframwaith o gyflogaeth ac amodau gwasanaeth, mae Staff Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd drwy broses o werthuso swyddi. Nid yn unig y bydd y broses hon yn asesu'n ffurfiol cyflog yn erbyn y farchnad ond bydd hefyd yn sicrhau y caiff staff eu trin yn deg ac mewn modd cyfartal. Ni chaiff ei orffen tan Ebrill 2008 ond disgwylir y caiff unrhyw gostau'n ymwneud â gwerthuso'r swyddi eu hamsugno o fewn gweithgareddau beunyddiol y corff yn dechrau o Ebrill 2008.

### Swyddfeydd a chyfleusterau

26. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u lleoli ledled Cymru. Mae staff yn gweithio yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ac mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Ewloe, Abertawe a Chaerdydd. Pan sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 trosglwyddwyd y ddau adeilad gwahanol ym meddiant y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol a'r Comisiwn Archwilio Cenedlaethol yng Nghymru i'r Archwilydd Cyffredinol ynghyd â'r ymrwymiadau cytundebol cysylltiedig (ee, trefniadau rheoli cyfleusterau). Bydd y prydlesau presennol ar y ddau adeilad naill ai'n dod i ben neu y gellir arfer y cymalau torri rhwng 2007-2009. Bydd yn ddoeth osgoi parhau â phrydlesau o'r fath tan yr eiliad olaf ac felly mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu ceisio caffael adeilad newydd yn ystod 2007/2008, ar sail lesddaliad, i gyfuno'r swyddfeydd presennol yng Nghymru. Byddai hynny yn arwain at arbedion effeithlonrwydd o ran costau gweithredu, gan y bydd staff wedi'u cydleoli ynghyd ag arbedion arian parod o ganlyniad i'r angen i wasanaethu un yn hytrach na dau adeilad Adlewyrchir hyn yn y lleihad, mewn termau gwirioneddol o tua £40,000, mewn costau swyddfeydd.

27. Yn dilyn gwerthusiad trylwyr o opsiynau ac achos busnes cadarn mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynu pa swyddfa i'w chaffael. Cychwynnwyd ar ailwampio'r swyddfa yn ystod yr haf eleni a bwriedir symud i mewn o Ebrill 2008. Mae'r amcangyfrif hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhywfaint o gostau parhaus a all godi yn 2008/2009 oherwydd trosglwyddo gweithrediadau o'r adeiladau presennol i'r adeilad newydd.

### Gwasanaethau corfforaethol

28. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad cyllidebol y llynedd, dibynnai'r cyrff rhagflaenol yn drwm ar eu prif swyddfeydd am wasanaethau corfforaethol. Bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol weithredu trefniadau i sicrhau'r gwasanaethau angenrheidiol i'r sefydliad newydd. Darparwyd y systemau ar gyfer y gyflogres, rheoli ariannol ac Adnoddau Dynol (AD) gan y Comisiwn Archwilio dros dro am ddwy flynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007. Cynhaliwyd y systemau hyn ar sail dros dro tra bod ein systemau newydd yn cael eu gosod a'u treialu. Rydym yn disgwyl cronni enillion yn gysylltiedig â'r systemau hyn o 2008/2009. Gwelir hyn drwy'r lleihad mewn costau gwasanaethau corfforaethol mewn termau gwirioneddol o tua £70,000.

### Cyflenwyr allanol

29. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi cwmnïau o gyfrifon o'r sector preifat i weithredu fel archwilwyr penodedig ar gyfer archwiliad o nifer o gyrff llywodraeth leol ac fel contractwyr ar gyfer ei archwiliadau o rai cyrff GIG yng Nghymru. Roedd y contractau yn werth cyfanswm o f:4 miliwn o incwm ffioedd y flwyddyn, sy'n cyfateb i tua 14 o benodiadau i brif gyrff a archwilir ac a arolygir ac i dros 550 o gynghorau cymuned. Roedd y rhan fwyaf o benodiadau'r cwmnïau yn parhau tan 2007 a gellir eu hymestyn drwy gytundeb.

30. Cafodd fframwaith contract newydd ei roi i dendro ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi sefydlu contractau newydd gyda phenodiadau'n rhedeg o flwyddyn ariannol 2007/2008, am gyfnod o bum mlynedd.
Mae cyfanswm maint y gwaith y dyfarnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan y contractau hyn yn debyg i'r hyn a gontractiwyd o'r blaen, ac mae cyfrifon ar gyfer tua 27 y cant o ffioedd archwilio llywodraeth leol a'r GIG.

### Costau pensiynau staff

31. Nid yw staff yr Archwilydd Cyffredinol yn weision sifil ond, yn debyg i staff mewn nifer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus nad ydynt yn weision sifil, maent yn gymwys i fod yn aelod o'r PCSPS. Mae rheolwyr y cynllun wrthi ar hyn o bryd yn terfynu eu hadolygiad bedair blynedd, i 31 Mawrth 2007, o ariannu'r cynllun pensiwn. Gallai hyn arwain o bosibl at godiad yn y gofyniad o ran cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn dod i rym o Ebrill 2007. Bwriedir cyhoeddi manylion terfynol yn ddiweddarach yn 2007.

32. Tra oedd Mesur Archwilio Cyhoeddus Cymru yn cael ei ddrafftio, cyn creu Swyddfa Archwilio Cymru, penderfynwyd fel mater o bolisi y dylai staff a oedd yn trosglwyddo i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru ar 1 Ebrill 2005 fod yn gymwys i drosglwyddo eu hawliadau pensiwn cronedig. Adlewyrchwyd y polisi hwnnw yn y rhwymedigaeth statudol sy'n rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol i gynnig telerau i'w staff newydd nad ydynt yn llai ffafriol na'r telerau yr oedd ganddynt hawl iddynt o'r blaen.

33. Ar y pryd, cymerwyd na fydd trosglwyddo staff rhwng y ddau gynllun pensiwn yn golygu mynd i unrhyw gostau. Fel y mae'n digwydd di-sail fu'r dybiaeth honno: dim ond gwerth trosglwyddo a gyfrifir ar sail sy'n safonol i'r cynllun hwnnw y gall cynllun pensiwn y Comisiwn Archwilio ei dalu; mae'r PCSPS yn gofyn am gyfrifo taliad mewn modd sy'n safonol i'r cynllun hwnnw; ond mae gwahaniaeth rhwng y ddau swm. Gorffennwyd y trosglwyddo ym mis Mai 2007 ar gost o £2.5 miliwn i Swyddfa Archwilio Cymru.

34. Adeg cyflwyno amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol y llynedd, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai'n ceisio amsugno'r holl gostau o £2.5 miliwn yn y flwyddyn gyfredol heb geisio cronfeydd ychwanegol gan y Cynlluniad Cenedlaethol. I wneud hyn, roedd angen ehangu bron yr holl adnoddau ariannol a etifeddwyd oddi wrth y cyrff rhagflaenol, i sicrhau enillion effeithlonrwydd, ac i wneud ymdrech wedi'i ganolbwyntio'n benodol i gyflymu cyflawniad gwaith sy'n ennill arian gan greu cynnydd un tro mewn incwm o ffioedd.

35. Mae'n amlwg yn sefyllfa anfoddhaol i redeg gyda braidd dim cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â gwaith llywodraeth leol, sy'n cyfrif am bron hanner incwm yr Archwilydd Cyffredinol, a bydd rhaid ailadeiladu'r cronfeydd wrth gefn dros amser yn unol ag arferion a dderbynnir a'r trefniadau ariannol newydd a ddaeth i fodolaeth o dan Ddeddf 2006.

### Treth Ar Werth

36. Fel yn yr amcangyfrif a gyflwynwyd y llynedd, nid yw Refeniw a Thollau EM wedi dyfarnu eto ar arfer y Comisiwn Archwilio o ychwanegu Treth ar Werth (TAW) at y ffioedd archwilio ac arolygu a godir ar lywodraeth leol a chyrff y GIG, a'i gwrthbwyso yn erbyn TAW sy'n daladwy ar gyflenwadau a gwasanaethau.

37. Fel mesur dros dro, mae Refeniw a Thollau EM wedi cytuno y gall y trefniadau presennol barhau nes y bydd adolygiad. Fel y llynedd, mae'r Archwilydd Cyffredinol felly wedi tybio y bydd Y trefniadau presennol yn parhau heb eu newid at ddiben llunio amcangyfrifon 2008/2009 ac nid yw wedi cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer TAW ychwanegol na ellir ei hadennill. Os bydd angen unrhyw newidiadau bydd angen i'r Archwilydd Cyffredinol drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a ddylid ariannu'r costau cynyddol drwy ffioedd ychwanegol, drwy arian ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru neu drwy gyfuniad o'r ddau.

## Dadansoddiad o'r amcangyfrif o incwm a gwariant ar gyfer 2008/2009

38. Mae Tabl 3 yn rhoi rhagolwg o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2008/2009 o'u cymharu â'r ffigurau amcangyfrifedig ar gyfer 2007/2008, gan gynnwys dadansoddiad o'r prif feysydd gwariant. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi gallu cyfyngu ar yr adnoddau a geisir i wneud yr arbedion a nodwyd yn Creu'r Cysylltiadau.

39. Mae arbedion effeithlonrwydd o'r fath yn cynnwys cyflwyno system gyfrifo ac adnoddau newydd a system AD a Chyflogres integredig. Mae hyn wedi galluogi trosglwyddo gwasanaethau cefnogi o'r corff rhagflaenol yn fewnol a bydd yn cyflawni arbedion arian ailadroddus o tua £100,000 y flwyddyn. At hynny, rydym wedi trosglwyddo nifer o staff asiantaeth i delerau contract staff hyblyg parhaol. Nid yn unig y mae hyn yn sicrhau mwy o barhad, o effeithiolrwydd, a staff sydd wedi'u hyfforddi'n drwyadl, mae hefyd wedi cyflawni arbedion yn y symiau a fyddai fel arall yn daladwy mewn comisiwn i asiantaethau recriwtio.

**Tabl 3: Rhagolwg o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru 2008/2009**

| | | 2007/2008 | | 2008/2009 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | **£miliwn** | **£miliwn** | **£miliwn** | **£miliwn** |
| Archwilio ac arolygu cyrff llywodraeth leol | (i) | | 9.4 | | 9.6 |
| Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | (ii) | | 1.5 | | 1.5 |
| Ardystio ceisiadau am grantiau | (iii) | | 2.2 | | 2.3 |
| Archwiliad o Lywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | (iv) | | 1.2 | | 1.2 |
| Archwiliad o gyrff GIG Cymru | (v) | | 5.6 | | 5.7 |
| Arall | (vi) | | 0.5 | | 0.4 |
| Cyfanswm yr incwm | | | **20.4** | | **20.7** |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | (vii) | | 14.9 | | 15.7 |
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr penodedig, contractwyr ac ymgynghorwyr | (viii) | | 5.0 | | 5.0 |
| Costau swyddfeydd a chostau cysylltiedig | (ix) | 1.3 | | 1.3 | |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | (x) | 1.2 | | 1.3 | |
| Gwasanaethau corfforaethol | (xi) | 2.1 | | 2.1 | |
| Taliadau cyfalaf | | 0.2 | 4.8 | 0.2 | 4.9 |
| Cyfanswm gwariant refeniw | | | **24.7** | | **25.6** |
| Gwariant cyfalaf | | | 0 | | 0 |
| **Adnoddau net a geisir** | | | **4.3** | | **4.9** |
| **Gofyniad arian parod net** | | | **4.2** | | **4.9** |

Nodiadau

(i) Disgwylir y bydd incwm o archwilio ac arolygu'n lleihau mewn termau gwirioneddol gan tua £130,000.

(ii) Disgwylir y bydd grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella'n lleihau mewn termau gwirioneddol gan tua £50,000.

(iii) Disgwylir y bydd ardystiad grant yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

(iv) Mae hyn wedi aros yr un peth, o flwyddyn i flwyddyn gan gymryd cyrff a gyfunwyd i gyfrif, ond mae wedi arwain at gwymp ar ôl chwyddiant o tua £40,000.

(v) Er y disgwylir y bydd yr archwiliad o gyrff GIG Cymru yn cynyddu bydd yn parhau i fod yn lleihad ar ôl chwyddiant o £100,000.

(vi) Disgwylir y bydd incwm arall yn cwympo o herwydd llai o enillion o incwm o fuddsoddiadau o ganlyniad i falansau arian llai.

(vii) Disgwylir y bydd costau staff a chostau cysylltiedig yn cynyddu gan tua 5.4 y cant gan gymryd i gyfrif dyfarniadau tâl posibl, a chynyddiadau mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Phensiwn a galw cynyddol am adroddiadau.

(viii) Disgwylir y bydd ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr penodedig ac archwilwyr yn aros yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ond mewn termau gwirioneddol ceir arbediad wedi'i gynllunio o £170,000 oherwydd gwell fframweithiau contact.

(ix) Rhagwelir y bydd costau swyddfeydd yn cwympo mewn termau gwirioneddol gan tua £40,000 gan adlewyrchu'r arbedion disgwyliedig o symud i un brif swyddfa.

(x) Disgwylir y bydd cyflenwadau a gwasanaethau'n cynyddu yn fwy na chwyddiant gan tua £50,000 oherwydd lefel y gwaith ychwanegol y mae'n ofynnol ei gynhyrchu.

(xi) Disgwylir y bydd costau gwasanaethau corfforaethol yn cwympo mewn termau gwirioneddol gan tua £70,000, i raddau helaeth mae hyn yn digwydd oherwydd buddsoddiad mewn systemau TG sydd wedi arwain at gymryd rhai gwasanaethau yn ôl yn fewnol.

(xii) Cysoni incwm â Thabl 1

Mae cronni adnoddau dan Ran 1ac adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn cynnwys:

| | **2008/2009 £miliwn** |
|---|---:|
| Ardystio ceisiadau am grantiau | 2.3 |
| Archwiliad o Lywodraeth y Cynulliad, cyrff cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig | 1.2 |
| Archwiliad o gyrff GIG Cymru | 5.7 |
| Arall | 0.1 |
| Cyfanswm | 9.3 |

**Tabl 4: Cysoni'r gofyniad o ran adnoddau â'r gofyniad hawlio arian o Gronfa Gyfunol Cymru**

| | **2008/2009 £miliwn** |
|---|---|
| Adnoddau net a geisir | 4.9 |
| Symudiad mewn dyledwyr, credydwyr ac incwm gohiriedig ddiwedd y flwyddyn | 0.2 |
| (Cynnydd)/lleihad mewn darpariaeth | 0 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 0 |
| Taliadau cyfalaf (llog a dibrisiant) | (0.2) |
| Gofyniad arian parod net | 4.9 |

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**Hydref 2007**

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA
Ffôn: 029 2026 0260
Ffacs: 029 2026 0026
Ffôn testun: 029 2026 2646
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk